Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Adrodd a Chefnogi

Adroddiad Blynyddol
2024/25

# Beth yw Adrodd a Chefnogi

**Platfform Adrodd a Chefnogi Prifysgol Caerdydd yw platfform ar-lein cyfrinachol, a lansiwyd ym mis Hydref 2024. Fe'i datblygwyd i sicrhau y gall unrhyw aelod o'n cymuned adrodd pryderon iechyd meddwl brys, achosion o aflonyddu, gwahaniaethu, trais ac ymddygiad camdriniol.**

**Mae'r platfform yn cynnig dull diogel a chyfrinachol o adrodd pryderon a derbyn cyfeirio, arweiniad a chefnogaeth gan ystod o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol arbenigol.**

Gan gydnabod natur sensitif datgeliadau o'r fath, mae'r platfform yn cynnig yr opsiwn i gyflwyno atgyfeiriadau wedi'u henwi neu'n ddienw. Er bod cyflwyniadau dienw yn cyfyngu ar allu'r brifysgol i gymryd camau uniongyrchol, maent yn cael eu hadolygu o hyd ac yn cael eu cynnwys yn ein dadansoddiad data blynyddol i lywio gwelliannau sefydliadol. (Gweler hysbysiad preifatrwydd am ragor o wybodaeth ar adrodd dienw).

**Adrodd am fyfyriwr:** Mae atgyfeiriadau sy'n ymwneud â myfyrwyr yn cael eu derbyn gan ein Tîm Ymyrraeth Cymorth i Fyfyrwyr (SSIT), sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n penderfynu ar y cam gweithredu mwyaf priodol. Lle darperir manylion cyswllt, bydd yr atgyfeiriwr yn derbyn cadarnhad e-bost gan dîm SSIT o fewn 48 awr.

**Adrodd am aelod o staff:** Mae atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag aelodau staff yn cael eu derbyn gan ein tîm Adnoddau Dynol, a fydd yn penderfynu ar y cam gweithredu mwyaf priodol. Lle darperir manylion cyswllt, bydd yr atgyfeiriwr yn derbyn cadarnhad e-bost gan y tîm AD.

**Mae datblygiad y platfform hwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Caerdydd 2024–2028, a nododd meysydd allweddol i'w gwella, gan gynnwys:**

- Yr angen am broses adrodd sy'n fwy hygyrch ac yn haws ei llywio.
- Ymrwymiad i wella casglu data i ddeall anghenion ein cymuned yn well.
- Ffocws ar gamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a mesur cynnydd yn effeithiol.

**Ein Hymrwymiad i Adrodd a Chefnogi:**

Mae Adrodd a Chefnogi yn rhan annatod o strategaeth ehangach y brifysgol sy'n cwmpasu atal, ymyrraeth a chefnogaeth ar ôl digwyddiad. Cafodd y platfform ei lansio'n raddol ym mis Hydref 2024 i'n galluogi i'w gyflwyno cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, nid yw'r set ddata gyntaf yn adlewyrchu'n llawn yr holl atgyfeiriadau gan fod hyrwyddo'r platfform wedi digwydd ar ôl y lansiad, gan ganiatáu amser i wirio a gwella ei swyddogaethau cyn ei hyrwyddo'n eang. Mae'r set ddata gychwynnol hon wedi bod yn hynod ddefnyddiol wrth helpu i siapio a mireinio'r platfform a chyfrannu at ein dull rhagweithiol, ataliol sy'n seiliedig ar ddata. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn adlewyrchu blwyddyn galendr lawn o ddata ac yn elwa o ymwybyddiaeth ehangach a defnydd cynyddol. Bydd mewnwelediadau a dderbynnir o'r set ddata gychwynnol hon yn llywio ein gwaith parhaus ar les myfyrwyr a staff ledled y brifysgol.

# Datganiadau

### Julie Walkling – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr:

Mae mor bwysig ein bod ni fel Prifysgol yn galluogi myfyrwyr, staff a thrydydd partïon i roi gwybod inni am bryderon sy'n ymwneud ag aflonyddu, trais, gwahaniaethu, pryderon iechyd meddwl a lles sy'n effeithio ar ein myfyrwyr fel ein bod ni wedyn yn gallu cynnig cymorth yn gyflym. Mae Adrodd a Chymorth yn blatfform a ddefnyddir yn eang ar draws addysg uwch yn y DU. Mae'n galluogi myfyrwyr i gael cymorth ar eu cyfer nhw eu hunain yn ogystal â rhoi gwybod inni am fyfyrwyr eraill y maen nhw'n poeni yn eu cylch. Ar wahân i helpu myfyrwyr yn uniongyrchol, mae hyn yn ein helpu ni hefyd i barhau i weithio i roi'r profiad gorau i fyfyrwyr a chreu ymdeimlad diogel o berthyn yn ein cymuned.

### Venice Cowper – Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae rhoi'r adnodd Adrodd a Chymorth ar waith yn gam trawsnewidiol i'r Brifysgol ac mae'n dynodi newid arwyddocaol i'n seilwaith a'n diwylliant. Mae cyflwyno'r adnodd yn cyd-fynd yn berffaith ag un o amcanion craidd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sef meithrin Cynefin neu ymdeimlad o berthyn ymhlith ein cymuned.

### Sarah Lewis – Pennaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr

Ym Mhrifysgol Caerdydd, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwasanaethau i fyfyrwyr i wneud i bob aelod o'n cymuned deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo a'u cynnwys. Mae'r platfform Adrodd a Chymorth yn gwneud yn siŵr bod rhoi gwybod am ystod o faterion, fel pryderon iechyd meddwl brys, achosion o drais a cham-drin a throseddau casineb, yn broses mor hawdd ac mor hygyrch â phosibl, gan ganiatáu i bobl gael eu cyfeirio at wybodaeth a chael canllawiau a chymorth. Rydym yn effro i adborth am gynnwys a hygyrchedd y platfform a byddwn yn parhau i'w ddatblygu yn seiliedig ar brofiad defnyddwyr.

# Cynnwys


1. Pwy sy'n delio â'r adroddiadau
2. Beth sy'n digwydd pan gyflwynir adroddiad
3. Cynllun cyfathrebu a sesiynau rhannu gwybodaeth
4. Sut mae Adrodd a Chefnogi wedi gyrru gwelliant gwasanaeth
5. Adborth gan ddefnyddwyr Adrodd a Chefnogi
6. Mewnwelediadau Data
7. Trosolwg o drais ac ymddygiad camdriniol
8. Data trais ac ymddygiad camdriniol
9. Data trais ac ymddygiad camdriniol dienw
10. Trosolwg iechyd meddwl
11. Data iechyd meddwl
12. Data iechyd meddwl dienw
13. Pwy sy'n adrodd am fyfyrwyr?
14. Adroddiadau eraill
15. Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Unigolion sy'n adrodd ar eu rhan eu hunain
16. Myfyrwyr israddedig sy'n hunaniaethu â nam
17. Myfyrwyr israddedig sy'n adrodd ar eu rhan eu hunain – Eu ffydd/crefydd
18. Crynodeb
19. Adborth

# Pwy sy'n derbyn yr adroddiadau?

Adroddiadau myfyrwyr: tîm SSIT yn y gwasanaeth Iechyd a lles canolog ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n derbyn y rhain. Maen nhw'n dîm o ymarferwyr arbenigol sydd â phrofiad a sgiliau amrywiol i helpu i gynorthwyo myfyrwyr. Yn benodol, rydyn ni'n cynorthwyo myfyrwyr sydd wedi cael profiad o aflonyddwch, trosedd gasineb, trais rhywiol, cam-drin mewn perthynas, bwlio a/neu broblem iechyd meddwl difrifol. Cewch hyd i enghreifftiau o'r hyn y maen nhw'n ei wneud drwy'r ddolen isod i'r fewnrwyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys: gweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol, sefydliad trydydd sector sy'n rhoi cymorth arbenigol i ddioddefwyr troseddau casineb, gweithio ar draws lleoliadau clinigol a chymunedol y GIG, ymyrraeth mewn argyfwng, nyrsio iechyd meddwl, gweithio mewn elusennau cam-drin domestig ac astudio cefndir mewn seicoleg.

**Dewch i gwrdd â'r Tîm**
Emma Jones sy'n rheoli'r tîm hwn o ymarferwyr arbenigol, a Sarah Lewis yw arweinydd y gwasanaeth. Mae rhagor o wybodaeth am brofiad y tîm ar ein tudalen cwrdd â'r tîm ar y fewnrwyd.



# Beth sy'n digwydd pan gyflwynir adroddiad?

Pan fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth Adrodd a Chymorth i roi gwybod i ni am rywbeth sydd wedi digwydd, dyma sut y byddwn ni'n eich cefnogi chi:

**Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tim Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth**

**Bydd ymarferydd arbenigol sy'n ystyriol o drawma yn ymateb i chi drwy Cyswllt Myfyrwyr neu'r e-bost a roddwyd gennych chi**

**Byddwn ni'n trefnu apwyntiad ar-lein neu wyneb yn wyneb i gynnig cymorth cyfrinachol a charedig, a byddwn ni ddim yn eich beirniadu chi**

**Yn yr apwyntiad, byddwn ni'n trafod opsiynau o ran cymorth ac adrodd pellach, gan ystyried eich anghenion diogelwch uniongyrchol, atgyfeiriadau, a'r camau nesaf**

**Byddwn ni'n cynnig cymorth yn seiliedig ar eich anghenion, fel apwyntiadau dilynol neu atgyfeiriadau arbenigol** (gyda'ch caniatâd)

Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tim Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth. Mae gennych chi hefyd yr opsiwn i adrodd yn ddienw. Sut y byddwn ni'n ymdrin â'ch gwybodaeth:

**Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tim Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth**

**Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn ein helpu i ddeall problemau yn y brifysgol ac yn llywio ein hymdrechion atal**

Os hoffech chi siarad â rhywun, rhowch wybod i ni gyda'ch manylion cyswllt.
reportandsupport@caerdydd.ac.uk

# Cynyddu ymwybyddiaeth o'r platfform

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth wedi'u targedu i hyrwyddo'r adnodd a chynyddu dealltwriaeth ohono. Mae'r sesiynau hyn wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws y Brifysgol, gan gynnwys Penaethiaid Ysgolion, Uwch-diwtoriaid Personol, a Chysylltiadau Lles. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn academaidd nesaf.

**Codi ymwybyddiaeth**

Ym mlwyddyn academaidd 24/25, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

**Sianeli Digidol**
- Diweddariadau ar fewnrwyd mewnol y staff a'r myfyrwyr
- Cynnwys pwrpasol wedi'i olygu ar y fewnrwyd gan gynnwys canllawiau clir a dolenni
- Gofod wedi'i ddiweddaru am dîm SSIT ar y Fewnrwyd gan gynnwys bywgraffiadau proffesiynol byr
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu myfyrwyr
- Cael ein cynnwys mewn eitemau newyddion myfyrwyr a staff
- Arwyddion digidol ar draws y campws (e.e. sgriniau mewn llyfrgelloedd, Undeb Myfyrwyr, Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, ac ati)

**Ymgyrchoedd Ebost**
- Negeseuon ebost wedi'u targedu at fyfyrwyr yn ystod cyfnodau allweddol gan gynnwys dolenni i hyrwyddo senarios adrodd unigol e.e. pryderon iechyd meddwl difrifol
- Ebyst atgoffa dilynol neu fotymau clicio cyflym i adrodd
- Negeseuon ebost wedi'u targedu at bob Ysgol gan gynnwys pecyn adnoddau sy'n cynnwys posteri/arwyddion sgrîn ddigidol er mwyn cyfathrebu'n fwy lleol

**Digwyddiadau ac Allgymorth**
- Stondinau Hyrwyddwyr Lles (e.e. diwrnod ymwybyddiaeth iechyd meddwl yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr)
- Sleidiau a anfonwyd ar gyfer cyflwyniadau i Ysgolion
- Cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth

**Deunyddiau a Argraffir**
- Posteri mewn mannau prysur (toiledau / ysgolion a gwahanol gampysau gan gynnwys y Mynydd Bychan)
- Taflenni a ddosbarthwyd yn ystod digwyddiadau, a digwyddiadau cymorth eraill (drwy'r brif daflen iechyd a lles)
- Baner i'w hyrwyddo mewn digwyddiadau
- Cynhyrchu cardiau busnes

**Partneriaethau**
- Hyrwyddo drwy fentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a diwrnodau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn

**Arall**
- Mae canllawiau fideo yn cael eu cynhyrchu

# Adrodd a chymorth yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau

- Cyfathrebu gwell a dull cydweithredol gyda thîm yr achosion myfyrwyr, sy'n gyfrifol am ddelio ag ymddygiad a chwynion myfyrwyr. Mae hyn yn ein galluogi i roi cymorth gwell i fyfyrwyr sydd wedi cyflwyno cwynion ffurfiol am unrhyw agwedd ar fywyd y brifysgol.

- Meithrin cysylltiadau â Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yng Nghaerdydd. Yn rhan o hyn mae tîm SSIT wedi cael hyfforddiant gan Dîm Treisio ac Ymosodiadau Rhywiol Difrifol (RASO) Heddlu De Cymru mewn partneriaeth â SARC. Mae hyn wedi caniatáu i SSIT rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosesau cyfreithiol, amserlenni cynorthwyo, a chyfeirio'n briodol at wybodaeth. Mae tîm SSIT wedi ymweld â SARC yng Nghaerdydd hefyd, gan olygu eu bod nhw'n gallu paratoi myfyrwyr sydd angen ymweld â nhw. Mae hyn er mwyn eu helpu i wybod ble i fynd a beth i'w ddisgwyl, ac mae'n gallu bod yn ddefnyddiol ar adeg mor drawmatig ac anodd.

- Hyfforddiant arbenigol wedi'i dargedu yn seiliedig ar yr adroddiadau a gyflwynir, er enghraifft: mae pob ymarferydd SSIT wedi cael hyfforddiant ar atal hunanladdiad ar gyfer goroeswyr a throseddwyr cam-drin domestig. Mae hyn wedi helpu'r tîm i wella asesiadau risg arbenigol a rhoi cymorth mwy cyfannol.

- Prosesau brysbennu gwell o fewn tîm SSIT ers yr uno yn ogystal ag ychwanegu iechyd meddwl at y ffurflen Adrodd a Chymorth

- Mae asesiad risg safonol wedi'i greu o fewn SSIT sy'n mynd i'r afael ag anghenion myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl a thrais neu gam-drin. Mae'n caniatáu i'r ymarferwyr gael gwell dealltwriaeth o anghenion cyfannol y myfyrwyr ac yn golygu bod modd cynnig cymorth sydd wedi'i dargedu'n well.

- Perthnasoedd gwell â'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC). MARAC yw'r man lle mae achosion trais domestig risg uchel yn cael eu trafod, a lle mae cymorth a chamau lliniaru risg yn cael eu cydlynu. Mae arweinydd MARAC dynodedig o fewn y tîm. Gall arwain ar ran y brifysgol a mynd i gyfarfodydd MARAC pan fydd myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu trafod.

- Gweithio'n well gydag adran gyfathrebu fewnol bywyd y myfyrwyr ac edrych ar ddulliau cyfathrebu wedi'u targedu.


# Adborth gan ddefnyddwyr Adrodd a Chymorth

**Adborth gan fyfyrwyr**

- Hawdd i'w lywio, clir
- Nid yw'r wybodaeth yn fygythiol
- Mae'r hyperddolenni sy'n egluro'r diffiniadau yn ychwanegiad gwych
- Mae cysylltiadau brys allweddol ar gael ar draws y platfform

**Adborth gan staff**

- Ffordd gyflym a rhwydd o gyfeirio pobl at gael cymorth ar eu cyfer nhw eu hunain neu eraill - yn amlwg dim ond ar adeg pan fyddwn yn cael gwybod am achosion mae hyn i'w weld ond rydyn ni'n bendant yn teimlo'n hyderus wrth naill ai gyflwyno adroddiadau ar ran eraill neu wrth gyfeirio pobl ato a dangos iddyn nhw sut mae'n gweithio. Doeddwn i ddim yma pan oedd yr hen system ar waith ond o'r hyn rwy'n ei glywed, mae Adrodd a Chymorth yn sicr yn well o ran cael un lle i gyfeirio pobl sydd mewn trafferth.
- Gwych cael gwefan allanol sy'n dileu'r angen i fewngofnodi
- Defnyddiol cael botwm adrodd dienw i helpu annog myfyrwyr i adrodd




# Dealltwriaeth o ddata a diweddariadau

Rhwng 30 Hydref 2024 a 31 Gorffennaf 2025, cafwyd cyfanswm o 658 o adroddiadau. O blith y rhain, rheolwyd 164 o atgyfeiriadau drwy'r Llwybr Trais a Cham-drin o fewn SSIT, tra bod 345 wedi cael sylw drwy'r Llwybr Iechyd Meddwl Brys. Mewn rhai achosion, cafodd myfyrwyr eu cynorthwyo drwy'r ddau lwybr, gan adlewyrchu cymhlethdod eu hanghenion a sut maen nhw’n gorgyffwrdd.

Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu edrych ar dueddiadau cymharol a monitro achosion ar y cyd sy'n rhychwantu'r llwybrau Iechyd Meddwl a Thrais a Cham-drin. I gynorthwyo hyn, byddwn yn cofnodi cyfres o ddulliau mesur canlyniadau drwy'r system newydd. Byddwn yn rhannu rhagor o fanylion yn y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Mae'r gorgyffwrdd rhwng atgyfeiriadau iechyd meddwl ac atgyfeiriadau trais a cham-drin yn amlygu pa mor gymhleth ac amlochrog yw lles myfyrwyr. Yn aml, mae angen ymatebion cydlynol ar draws nifer o wasanaethau cymorth i fynd i’r afael â’r achosion hyn. Gallai dadansoddiadau yn y dyfodol edrych ar batrymau mewn atgyfeiriadau llwybr deuol i nodi sbardunau neu ffactorau risg cyffredin, gan alluogi ymyrraeth gynharach.

Yn anffodus, nid ydym yn gallu darparu data cywir, cymharol o'r flwyddyn academaidd flaenorol (23/24). Mae hyn oherwydd cyfyngiadau yn ein system rheoli achosion bresennol nad yw'n casglu'r metrigau angenrheidiol. Mae'r bwlch hwn yn amlygu pa mor bwysig yw inni bontio i'r platfform Adrodd a Chymorth.

Wrth edrych i’r dyfodol, ein nod yw gwella ein galluoedd casglu a dadansoddi data.




**Newidiadau a diweddariadau i Adrodd a Chymorth yn 2024/25**
Cyn y lansiad, gwnaethom benderfyniad strategol i gynnwys yr opsiwn iechyd meddwl yn y ffurflen atgyfeirio. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu sut mae prosesau gwaith SSIT wedi'u hintegreiddio o dan strwythur tîm unedig sy'n cynnwys un llwybr atgyfeirio. Cafodd y penderfyniad ei lywio gan adborth cyson gan staff a myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn. Fe dynnon nhw sylw at ddryswch ynghylch sut i wneud atgyfeiriad yn ogystal ag anawsterau wrth lywio'r hen system rheoli achosion a oedd yn gysylltiedig â'r ffurflen atgyfeirio.

Er mwyn bod mor eglur a thryloyw â phosibl, fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi siart lif gynhwysfawr o'r broses sy'n amlinellu beth sy'n digwydd yn y gwasanaeth Adrodd a Chymorth ar ôl derbyn atgyfeiriad myfyriwr.

Mewn cydweithrediad â'r tîm Achosion Myfyrwyr, fe wnaethom greu adran Cwestiynau Cyffredin hefyd i ateb ymholiadau cyffredin. Mae cynlluniau i barhau i ddatblygu'r adran hon eisoes ar waith.

Ar ben hynny, fe wnaethom weithio'n agos gydag Adnoddau Dynol i baratoi ar gyfer lansio'r gwasanaeth i staff ym mis Medi 2025. O hyn ymlaen, mae Adrodd a Chymorth wedi'i ymestyn i staff, gan eu galluogi i ofyn am gyngor ar faterion fel bwlio ac aflonyddu, camymddygiad rhywiol, a gwahaniaethu. Er bod llwybr y myfyrwyr yn canolbwyntio ar gymorth, mae llwybr y staff—a reolir gan Adnoddau Dynol—yn rhoi cyngor wedi'i deilwra. Caiff pob adroddiad ei drin yn gyfrinachol a'i ddosbarthu'n briodol, a dim ond lle bo hynny'n berthnasol i'w cylch gwaith y bydd timau gweithredol yn darllen yr adroddiadau. Mae ymestyn yr adnodd Adrodd a Chymorth i staff yn nodi newid diwylliannol sylweddol. Byddwn yn monitro'r galw a bydd adborth gan staff sy'n ei ddefnyddio yn hanfodol wrth asesu effaith ehangach y platfform ar les a chynhwysiant sefydliadol. Gallai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad cymharol rhwng patrymau defnydd myfyrwyr a staff.


**Rydym wedi gwneud sawl gwelliant allweddol i'r ffurflen Adrodd a Chymorth, gan gynnwys:**
- Diweddaru canlyniadau cyffredinol i adlewyrchu arferion gwaith penodol SSIT, gan olygu bod modd olrhain data yn fwy cywir
- Adolygu cwestiynau i wneud yn siŵr eu bod yn briodol ar gyfer atgyfeiriadau iechyd meddwl brys a thrais a cham-drin.
- Mireinio diffiniadau ar draws categorïau o drais a cham-drin, drwy ymgynghori â SSIT, i wneud yn siŵr ein bod yn gywir a chyson.
- Cynnwys blwch testun rhydd ar gyfer y rhai sy'n atgyfeirio a allai deimlo'n anfodlon i rywun gysylltu â nhw drwy eu manylion cyswllt hysbys.



# Trosolwg o Drais a Cham-drin


Rhwng mis Hydref 2024 a mis Gorffennaf 2025, cawsom adroddiadau ar fathau amrywiol o ddigwyddiadau trais a cham-drin. Wrth gyflwyno atgyfeiriad, gofynnir i unigolion nodi natur benodol y digwyddiad. Mae'r categorïau hyn yn cynnwys:

- Ymosod
- Bwlio
- Gwahaniaethu
- Trosedd casineb
- Aflonyddu
- Cam-drin domestig
- Aflonyddu rhywiol neu fathau eraill o gamymddygiad rhywiol
- Trais rhywiol
- Stelcio




O fis Hydref i fis Gorffennaf, roedd nifer yr adroddiadau'n amrywio, ac roedden nhw ar eu huchaf ym misoedd Tachwedd, Chwefror a Mawrth. Ym mis Ionawr y cafwyd y nifer isaf. Pan lansiwyd yr adnodd ddiwedd mis Hydref, cynyddodd ymdrechion cyfathrebu'n raddol—megis gosod posteri mewn toiledau a hyrwyddo ar dudalen Instagram y brifysgol. Roedd y cynnydd cyflym a welwyd ym mis Chwefror yn cyd-daro â negeseuon cyfathrebu wedi'u targedu ar gyfer yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Drais Rhywiol, a'r bwriad yw ei hyrwyddo eto yn 2026. Mae dadansoddiad amserol yn datgelu bod cylchoedd academaidd ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn dylanwadu ar nifer yr achosion a adroddir. Er enghraifft, gallai'r niferoedd uwch ym misoedd Chwefror a Mawrth fod o ganlyniad i'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Drais Rhywiol yn ogystal â straen canol tymor. Mae deall y patrymau hyn yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau allgymorth a chymorth yn strategol yn ystod cyfnodau pan fo'r risg yn uchel.

# Data am Drais a Cham-drin





Mae'r graff yn dangos canran yr adroddiadau a wnaed o dan y categori "Enwyd" ar draws gwahanol fathau o ddigwyddiadau. Aflonyddu ac ymosod oedd yr achosion a adroddwyd amlaf, wedi'u dilyn gan aflonyddu/camymddygiad rhywiol a bwlio. Stelcio oedd â'r gyfradd adrodd isaf. Gan fod modd dewis sawl opsiwn mewn un adroddiad, mae'r canrannau'n adlewyrchu pa mor aml y soniwyd am bob mater yn hytrach na nifer yr adroddiadau unigryw.

Gallai'r ffaith mai aflonyddu ac ymosod sy'n dod i'r amlwg fel y digwyddiadau a adroddir amlaf adlewyrchu tueddiadau cymdeithasol ehangach, ac mae'n bosibl eu bod yn fwy cyfarwydd a chyffredin i fyfyrwyr. Mae amlygrwydd aflonyddu rhywiol a bwlio yn awgrymu bod heriau parhaus yn y modd y mae cyfoedion yn rhyngweithio, yn enwedig mewn lleoliadau cymdeithasol ac academaidd. Gall y patrymau hyn ddangos hefyd y meysydd lle mae myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus yn nodi camymddygiad ac yn adrodd amdano. Gall hyn fod o ganlyniad i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cynyddol neu ddiffiniadau mwy eglur yn y ffurflen atgyfeirio.
Gallai'r nifer cymharol is o bobl sy'n adrodd am stelcio a throseddau casineb awgrymu diffyg cydnabyddiaeth neu ofni'r hyn a allai ddigwydd o ganlyniad, yn enwedig mewn achosion lle mae'r dioddefwr yn adnabod y troseddwr. Mae hyn yn amlygu'r angen am addysg a sicrwydd

# Gyrru Newid: Camau Gweithredu'r Dyfodol o Fewn Mewnwelediadau Trais ac Ymddygiad Camdriniol & Hyrwyddo Adrodd a Chefnogi

| Focus Area | Actions |
|---|---|
| Diwylliant Cynhwysol a Gwrth-Hiliaeth | **Hwyluso cyfarfodydd rheolaidd a yrrir gan ddata sy'n canolbwyntio ar weithio wyneb yn wyneb â myfyrwyr, i geisio:**<br>• Meithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol, gwrth-hiliol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, perthyn, a diogelwch seicolegol<br>• Nodi rhwystrau systemig a wynebir gan fyfyrwyr lleiafrifol hiliol a mynd i'r afael â nhw |
| Trais, Cam-drin a Diogelu | Rhoi diweddariadau parhaus i'r grŵp Mynd i'r Afael â Thrais, Cam-drin ac Aflonyddu Rhywiol yn Erbyn Menywod.<br>Penodi arweinydd MARAC i wneud yn siŵr bod achosion risg uchel yn cael eu huwchgyfeirio a bod protocolau diogelu yn cael eu rhoi ar waith.<br>Cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun profi a dysgu 2025/26 i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), a hyfforddi staff a myfyrwyr i arwain sesiynau ar gydraddoldeb rhywedd, parch, perthnasoedd iach, a chydsyniad rhywiol.<br>Mae'n bwysig nodi bod yr holl gamau hyn yn cyd-fynd â'r gwaith ehangach y mae'r brifysgol yn ei wneud ochr yn ochr â'r grŵp Mynd i'r Afael â Thrais, Cam-drin ac Aflonyddu Rhywiol yn Erbyn Menywod. |
| Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth | Ymgysylltu'n barhaus ag adrannau Cyfathrebu i adolygu a chyflwyno negeseuon sydd wedi'u targedu'n fwy penodol o amgylch mathau penodol o ddigwyddiadau.<br><br>Templedi E2S wedi'u diwygio i gynnwys gwybodaeth am ddiogelwch, cyfathrebu tosturiol, ac iaith sy'n seiliedig ar drawma. |
| Hyfforddiant a Meithrin Gallu | Cyfrannu at hyfforddiant staff ar Aflonyddu Rhywiol a Chamymddygiad Rhywiol drwy esbonio'r platfform Adrodd a Chymorth, a'r gwahaniaethau rhwng llwybrau myfyrwyr a staff.<br>Cyfrannu at y gweithdy Ymgorffori Gwrth-hiliaeth ar gyfer Rheolwyr drwy roi mewnbwn tebyg.<br>Cyfrannu at gyflwyno'r gweithdy Mae'n Amser i Drafod Hil drwy roi trosolwg o'r platfform Adrodd a Chymorth ac egluro sut mae'r llwybr adrodd myfyrwyr yn wahanol i lwybr adrodd staff.<br>Mae staff SSIT wedi cymryd rhan mewn ystod o hyfforddiant arbenigol i wella eu dealltwriaeth o faterion cymhleth a'u hymateb iddyn nhw. Mae'r hyfforddiant a gwblhawyd yn cynnwys:<br>• Deall ac Ymateb i Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl<br>• Hyfforddiant DASH a MARAC<br>• Mynd i'r Afael â Thrais Rhywiol mewn Addysg Uwch<br>• Cam-drin Domestig a Hunanladdiad – Beth yw'r Cysylltiad?<br>• Mis Balchder: Casineb Ar-lein<br>• Cymryd a Chofnodi Datgeliad<br>• Deall Troseddau Casineb<br>• Sefwch yn Gadarn yn Erbyn Aflonyddu<br>• Hyfforddiant Cam-drin Domestig i Reolwyr Gwasanaeth Lefel 3<br>• Pŵer Iaith<br><br>Cryfhau'r berthynas â SARC, a fydd yn cynorthwyo ymgyrchoedd y brifysgol ac yn helpu i hysbysu myfyrwyr drwy ymgysylltu. |
| Systemau Digidol ac Adrodd | Galluogi SSIT i ddiweddaru'r system yn seiliedig ar adborth myfyrwyr ac ymarferwyr.<br><br>Gwneud yn siŵr bod canlyniadau atgyfeiriadau'n cael eu hadrodd yn gywir drwy Adrodd a Chymorth.<br><br>Cryfhau'r deialog gydag Adnoddau Dynol i wella'r prosesau ymateb i atgyfeiriadau. |
| Addysg Myfyrwyr ac Atal | Ariannu dau fodiwl e-ddysgu i fyfyrwyr (Cydsyniad Rhywiol a Gweld ac Ymyrryd), a ddatblygwyd gan Brook ac a lywiwyd gan ymchwil Dr Elsie Whittington, i helpu i newid diwylliant a hyrwyddo perthnasoedd parchus. |


# Data anhysbys am drais a cham-drin




Mae'r siart yn dangos y mathau o ddigwyddiadau a adroddwyd yn ddienw. Roedd aflonyddu, bwlio ac ymosod ymhlith y materion a adroddwyd amlaf. Roedd digwyddiadau eraill yn cynnwys aflonyddu neu gamymddygiad rhywiol, gwahaniaethu, trais rhywiol, troseddau casineb, cam-drin domestig, a stelcio. Mae'n bwysig nodi y gallai unigolion ddewis sawl categori wrth adrodd, gan ddynodi y gallai rhai digwyddiadau gynnwys pryderon sy'n gorgyffwrdd.

# Pam mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau'n cael eu cyflwyno yn ddienw?

Oherwydd sut mae'r system yn gweithredu, nid ydym yn gallu tynnu'r data allan a allai ddangos pam yn union mae adroddiadau'n dod drwodd yn ddienw ar gyfer pob math o ddigwyddiad. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi trosolwg o'r holl fathau o ddigwyddiadau trais a cham-drin.





*NB - Multiple options could be selected in a single report*

Mae'r siart yn amlinellu rhesymau amrywiol pam mae unigolion yn dewis adrodd am ddigwyddiadau'n ddienw. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynghylch byw gyda'r troseddwr, ansicrwydd ynghylch pa gamau i'w cymryd, ac awydd i gadw'r digwyddiad yn breifat neu osgoi cael eraill i drafferth. Mae rhai pobl yn dymuno osgoi gweithdrefnau ffurfiol, yn teimlo'n chwithig neu gywilydd, neu'n credu nad oes ganddyn nhw ddigon o dystiolaeth. Mae eraill yn teimlo bod gan y troseddwr fwy o awdurdod, maen nhw am rannu gwybodaeth heb ddatgelu pwy yw e, neu'n poeni am yr effaith ar eu gyrfa neu eu hastudiaethau yn y dyfodol. Mae rhesymau ychwanegol yn cynnwys ofn cael ei labelu'n rhywun sy'n achosi trafferth, pryder am beth allai ddigwydd o ganlyniad, amheuon ynghylch cael eich credu, profiadau yn y gorffennol o beidio â chael eich cymryd o ddifrif, meddwl nad yw'r mater yn ddigon difrifol, neu resymau personol eraill. Gellid dewis sawl rheswm mewn un adroddiad.

# Trosolwg o iechyd meddwl

Rhwng mis Hydref 2024 a mis Gorffennaf 2025, cofnodwyd nifer o adroddiadau a oedd yn ymwneud â phryderon iechyd meddwl brys. Wrth ddewis 'Pryder Iechyd Meddwl' ar y ffurflen atgyfeirio, gofynnir i unigolion nodi natur y pryder y maen nhw neu'r person y maen nhw'n ei atgyfeirio wedi'i brofi. Mae'r categorïau pryderon iechyd meddwl sydd ar gael yn cynnwys:

- Meddyliau, cynlluniau neu fwriad hunanladdol
- Hunan-niweidio
- Anhwylder bwyta
- Defnyddio sylweddau
- Ymddygiad a allai beri risg i eraill
- Arwyddion o baranoia neu seicosis
- Derbyn i'r ysbyty naill ai ar sail wirfoddol neu o dan adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (2007)




Mae'r siart bar yn dangos nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd o fis Hydref i fis Gorffennaf. Ym mis Mawrth y gwelwyd y nifer uchaf o adroddiadau iechyd meddwl, a misoedd Ebrill a Chwefror oedd agosaf wedi hynny o ran nifer. Cafwyd nifer sylweddol ym mis Tachwedd hefyd. Ym mis Mehefin y cafwyd nifer isaf yr adroddiadau. Gwelwyd cwymp sydyn o fis Mai i fis Mehefin, a chafwyd cynnydd graddol wedi hynny ym mis Gorffennaf.


# Data am iechyd meddwl

Y pryder a adroddir amlaf yw meddyliau, cynlluniau neu fwriad hunanladdol, ac yna hunan-niweidio. Mae adroddiadau am anhwylderau bwyta hefyd yn sylweddol, ac yna arwyddion o baranoia neu seicosis. Ar hyn o bryd, mae derbyniadau i'r ysbyty, boed yn wirfoddol neu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cynrychioli'r categori lleiaf a adroddir.

Mae'r nifer uchel o adroddiadau sy'n ymwneud â meddyliau hunanladdol yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol cefnogaeth iechyd meddwl hygyrch. Gall y duedd hon adlewyrchu gwell llythrennedd iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr, yn ogystal â hyder cynyddol yn gallu'r platfform i ddarparu cymorth amserol.

Gallai'r adroddiadau is am dderbyniadau i'r ysbyty fod oherwydd natur y digwyddiadau hyn yn cael eu rheoli'n allanol neu fyfyrwyr heb sylweddoli eu bod yn berthnasol i'r platfform. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy arweiniad cliriach ar beth sy'n cyfrif fel pryder y gellir ei adrodd, sef menter yr ydym, fel y dangosir isod, yn gweithio'n gyson arni.


Gall amrywiadau tymhorol mewn adroddiadau—megis uchafbwyntiau ym mis Mawrth a gostyngiadau ym mis Mehefin fel y dangoswyd mewn siart blaenorol—fod yn gysylltiedig â phwysau academaidd, cyfnodau arholiadau, neu ymgyrchoedd prifysgol. Gall y mewnwelediadau hyn lywio strategaethau cyrraedd yn y dyfodol, gan sicrhau bod cefnogaeth fwyaf amlwg yn ystod cyfnodau o straen uchel



# Gyrru Newid: Camau Gweithredu'r Dyfodol o Fewn Mewnwelediadau Iechyd Meddwl Brys & Hyrwyddo Adrodd a Chefnogi


| Maes Ffocws | Camau a Gynllunnir |
|---|---|
| Blaenoriaethu Iechyd Meddwl wrth Adrodd | • Ychwanegu categori iechyd meddwl ar y ffurflen Adrodd a Chymorth i gasglu data perthnasol a chydnabod pryderon annibynnol.<br>• Cydweithio â Gwasanaeth Cyswllt Seiciatrig Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i wella prosesau rhannu data am bresenoldeb a derbyniadau i ysbytai.<br>• Datblygu Strategaeth Atal Hunanladdiad newydd gydag SSIT, gan gynnwys camau ar ddiogelwch corfforol, mynediad at ddulliau, a chyfathrebu gwell yn ystod cyfnodau o straen mawr.<br>• Gwell cydweithio â Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (CAVDAS), gan gynnwys sesiynau galw heibio bob pythefnos yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr i gynnig cyngor cyfrinachol. |
| Cyfathrebu'n Well â'r Rhai sy'n Atgyfeirio | Ychwanegu teils gwybodaeth wedi'u targedu ar y platfform Adrodd a Chymorth i roi gwybod i'r rhai sy'n atgyfeiro am wasanaethau cymorth ar draws y brifysgol. |
| Cymorth Staff drwy Ymarfer Myfyriol | Cyflwyno goruchwyliaeth gan gymheiriaid a sesiynau myfyriol i helpu staff SSIT i reoli effaith emosiynol achosion risg uchel. |
| Gweithdrefnau Asesu Risgiau Uwch | Diweddariadau i apwyntiadau cychwynnol asesiadau risg i adlewyrchu anghenion cyfannol myfyrwyr yn well. |
| Cydweithio'n Agosach â'r Tîm Achosion Myfyrwyr | Sefydlu perthynas waith fwy integredig i reoli achosion a chanlyniadau yn well. |
| Olrhain Canlyniadau Atgyfeirio yn Gywir | System Adrodd a Chymorth wedi'i diweddaru i wneud yn siŵr bod canlyniadau atgyfeirio yn cael eu cofnodi a'u monitro'n gywir. |
| Diogelu Data a Goruchwylio Atgyfeiriadau | Adol monitro ygu Asesiad Effaith Diogelu Data a prosesau rheoli atgyfeiriadau yn barhaus at ddibenion cydymffurfiaeth ac arferion gorau. |

# Adroddiadau iechyd meddwl dienw




O'r 345 atgyfeiriad iechyd meddwl brys a dderbyniwyd, cyflwynwyd 24 yn ddienw. Ymhlith yr atgyfeiriadau dienw hyn, mae'r canrannau canlynol yn adlewyrchu'r mathau o bryderon iechyd meddwl a adroddwyd. Mae'n bwysig nodi y gallai atgyfeiriadau unigol gynnwys sawl maes pryder, ac felly nid yw'r categorïau'n unigryw i'w gilydd.

# Pam mae rhai adroddiadau iechyd meddwl brys yn cael eu cyflwyno yn ddienw?





*NB - Multiple options could be selected in a single report*

Mae'r siart yn cyflwyno amryw resymau pam mae unigolion yn dewis cyflwyno adroddiadau iechyd meddwl brys yn ddienw. Mae cymhellion cyffredin yn cynnwys teimlo fel petai diffyg tystiolaeth ganddynt a dymuniad i rannu gwybodaeth heb ddatgelu eu hunaniaeth. Mae rhai unigolion yn cyflwyno yn ddienw am eu bod yn ansicr beth i'w wneud, yn ofni beth allai ddigwydd iddyn nhw neu eraill o ganlyniad, neu am eu bod yn byw gyda'r troseddwr. Mae rhesymau eraill yn cynnwys pryderon ynghylch peidio â chael eu credu, peidio â bod eisiau rhoi unrhyw un mewn trafferth, teimlo nad oes ganddyn nhw ddigon o dystiolaeth, neu dybio bod gan y troseddwr fwy o awdurdod. Mae pryderon ychwanegol yn cynnwys effeithiau posibl ar yrfa neu astudiaethau yn y dyfodol ac ofn cael eu labelu'n rhywun sy'n achosi trafferth. Gellid dewis sawl rheswm mewn un adroddiad.

Mae nifer sylweddol yr adroddiadau dienw, yn enwedig ar gyfer aflonyddu, bwlio ac ymosod, yn awgrymu bod pryderon parhaus o ran diogelwch, stigma ac ymddiriedaeth. Gallai llawer o fyfyrwyr ofni y bydd camau i ddial yn eu herbyn neu oblygiadau cymdeithasol, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â chyfoedion neu ffigurau awdurdod. Mae'r awydd i osgoi prosesau ffurfiol a pharhau i fod yn anhysbys yn dangos bod angen dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n blaenoriaethu diogelwch seicolegol. Oherwydd y gydnabyddiaeth hon, mae rheolwyr ym maes iechyd a lles yn gwneud yn siŵr bod ymarferwyr SSIT yn penodi ac yn hyfforddi yn ôl yr angen cyfredol a welwn yn y data. Mae enghreifftiau o rywfaint o'r hyfforddiant i'w gweld ar y dudalen gyfredol ar y fewnrwyd.

# Pwy sy'n adrodd am fyfyrwyr?




Mae'r graff hwn yn dangos ar ran pwy y mae’r unigolion yn cwblhau'r adroddiad. Mae'r adran gyntaf, a elwir yn 'fi', yn awgrymu bod unigolion yn adrodd am fathau penodol o ddigwyddiadau amdanyn nhw eu hunain, a myfyrwyr yw'r rhain yn bennaf. Mae'r ail adran, a elwir yn 'rhywun arall', yn awgrymu bod unigolion yn atgyfeirio ar ran rhywun arall sy’n wynebu math penodol o ddigwyddiad. Yn aml, staff yw’r rhain sy’n cyfeirio ar ran myfyriwr.

Fel y dangoswyd uchod, rydym wedi derbyn cyfran llawer mwy o adroddiadau sydd wedi’u cyflwyno ar ran rhywun arall yn ymwneud â digwyddiad penodol.


Ceir dadansoddiad pellach isod o ganrannau'r myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n adrodd ar ran eu hunain neu bod eraill wedi cyflwyno ar eu rhan:




Mae nifer uchel yr adroddiadau a gyflwynir ar ran eraill—yn aml gan staff—yn dangos pa mor bwysig yw diogelu lles myfyrwyr i gymuned y brifysgol. Gall y duedd hon awgrymu hefyd bod rhai myfyrwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus yn datgelu pryderon i staff dibynadwy yn hytrach na defnyddio'r platfform yn uniongyrchol. Mae'n atgyfnerthu pa mor bwysig yw hyfforddi a galluogi staff i adnabod arwyddion o ofid a llywio'r broses adrodd yn hyderus. Rydym yn cydnabod yn glir yr angen am hyfforddiant pellach.

Gallai dadansoddiad pellach edrych ar p’un a yw myfyrwyr ôl-raddedig neu ryngwladol yn fwy tebygol o gael eu hadrodd gan eraill, a gallai hynny ddatgelu rhwystrau diwylliannol neu strwythurol i hunan-adrodd.

# Data lefel coleg




Mae adroddiadau ar draws y tri phrif goleg yn tynnu sylw at ystod eang o bryderon. Aflonyddu yw'r mater a adroddir amlaf, yn enwedig yng Ngholeg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd (30.1%) a'r Gwyddorau Ffisegol ac Peirianneg (16.4%), ac yna Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (7.2%). Mae bwlio a gwahaniaethu hefyd yn sylweddol, gan ymddangos yn gyson ar draws pob coleg, gyda'r Celfyddydau a'r Dyniaethau yn adrodd 3.2% ar gyfer pob un a'r Gwyddorau Ffisegol yn adrodd 3.4% a 4.0% yn y drefn honno. Mae aflonyddu rhywiol neu fathau eraill o gamymddygiad rhywiol yn fwyaf cyffredin yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau (4.2%), tra bod trais rhywiol, cam-drin domestig a stelcian yn digwydd ar lefelau is ar draws pob coleg. Mae adroddiadau am droseddau casineb, pryderon iechyd meddwl brys ac ymosodiad yn llai cyffredin ond yn dal i fodoli, pob un yn cyfrif am ganrannau bach. Yn gyffredinol, er bod aflonyddu'n dominyddu, mae'r data'n dangos sbectrwm eang o faterion, gan nodi'r angen am ymyriadau wedi'u targedu ar draws sawl maes.


Mae pob coleg wedi derbyn y data hwn yn ddiweddar gyda'r bwriad o gydweithio ar gyfathrebiadau wedi'u targedu a mentrau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r platfform Adrodd a Chefnogi. Ar gyfer adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf, ein nod yw darparu dadansoddiad manylach, gan gynnwys data ar lefel ysgol a dadansoddiad o'r mathau penodol o aflonyddu sy'n cael eu hadrodd. Oherwydd natur adnabyddadwy'r set ddata bresennol, nid yw wedi bod yn bosibl cynnwys y lefel hon o fanylder yn adroddiad eleni.

# Adroddiadau eraill

Ochr yn ochr â'r holl fathau o ddigwyddiadau a drafodwyd uchod, cawsom hefyd 46 o adroddiadau a oedd â'r math o ddigwyddiad wedi'i farcio fel 'arall'.
Mae'r siart gylch yn dangos dosbarthiad y materion a adroddwyd a gafodd eu categoreiddio fel 'arall' rhwng Hydref 2024 a Gorffennaf 2025. Rydym wedi crynhoi pa adroddiadau 'eraill' rydym yn eu gweld a gafodd eu categoreiddio fel 'Dim cyswllt gan fyfyriwr/ffrind'. Dilynwyd hyn gan 'Camymddygiad Academaidd/Proffesiynol' 'Lladrad' a thri chategori—'Anawsterau/cyngor academaidd', 'Pryderon iechyd meddwl-defnyddir i gael rhagor o wybodaeth', a 'Twyll ar-lein' a oedd â'r un ganran.

Gan fod 'dim cyswllt gan fyfyriwr/ffrind' yn uchel, byddwn yn mynd ati cyn bo hir i ddod â rhagor o wybodaeth ynghyd i bob unigolyn sy'n ymweld â'r wefan Adrodd a Chymorth ac sydd am roi gwybod am fyfyriwr a allai fod ar goll, a pha gamau y dylai ei gymryd os oes pryder iechyd meddwl yn gysylltiedig â'r myfyriwr.

Rydym wedi adolygu'r categorïau digwyddiadau a oedd yn arfer cael eu disgrifio fel 'arall', ac mae'r ffurflen wedi'i diweddaru i adlewyrchu rhai mathau penodol o ddigwyddiadau. Erbyn hyn, rydym wedi cynnwys 'twyll' fel math penodol o ddigwyddiad, yn unol â'r data rydym wedi bod yn ei gasglu. Ar ben hynny, yn seiliedig ar wybodaeth o'r data hwn, rydym yn gwella ein dulliau cyfathrebu a'n canllawiau mewn perthynas â phobl sydd ar goll.




# Data Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Integreiddio (CAI) – Sawl unigolyn sydd wedi adrodd ar eu rhan eu hunain

Mae’n bwysig nodi bod y cwestiynau sy’n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth ac Integreiddio (CAI) yn ddewisol ac wedi’u gosod tuag at ddiwedd y ffurflen. Er y gall rhai unigolion eu cwblhau, gall llawer o ddata gael ei golli os nad ydynt wedi’u llenwi. Rydym wedi llunio’r data sydd gennym at ei gilydd ac yn parhau i wneud hynny.


| Gender | Dyn | Menyw | Mewn ffordd arall |
|---|---|---|---|
| Israddedig Dienw | 8 | 17 | Methu rhyddhau |
| Ôl-raddedig Dienw | 8 | Methu rhyddhau | Methu rhyddhau |
| Israddedig a enwyd | 35 | 100 | 4 |
| Ôl-raddedig a enwyd | 35 | 15 | Methu rhyddhau |

# Myfyrwyr israddedig sy'n nodi bod ganddyn nhw anabledd

Ni allwn ryddhau'r holl ddata gan y byddai'n datgelu pwy yw'r unigolion.




# Myfyrwyr israddedig sy'n adrodd ar eu rhan eu hunain – eu ffydd/crefydd



# Crynodeb o'r camau a gynlluniwyd ar sail y data a dderbyniwyd

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i wella'r platfform Adrodd a Chymorth drwy gymryd cyfres o gamau strategol sy'n cael eu llywio gan ddata ac adborth defnyddwyr. Mae gweithredoedd strategol hefyd yn cael eu llywio gan grwpiau gwaith y brifysgol gan gynnwys: Grŵp ar Daclo Trais, Camdriniaeth a Chydio Rhywiol yn erbyn Menywod a'r Grŵp Iechyd Meddwl a Lles Myfyrwyr.
Mae'r rhain yn cynnwys integreiddio egwyddorion gwrth-hiliaeth mewn gwasanaethau lles, olrhain canlyniadau atgyfeiriadau yn well, a chydweithio'n agosach ag Adnoddau Dynol ac asiantaethau allanol fel SARC a MARAC. Bydd tîm SSIT yn parhau i fireinio prosesau'r system, rhoi hyfforddiant wedi'i dargedu i staff, yn ogystal â rhoi diweddariadau ar waith yn seiliedig ar fewnbwn myfyrwyr ac ymarferwyr. Bydd cymorth iechyd meddwl yn cael blaenoriaeth drwy gynnal asesiadau risg gwell, arferion myfyriol i staff, a chyfathrebu'n well â'r rhai sy'n atgyfeirio. Ar ben hynny, mae'r platfform wedi'i ddiweddaru i gynnwys diffiniadau cliriach, llwybr atgyfeirio unedig, a chategorïau newydd fel twyll. Ar ben hynny, mae ymdrechion parhaus i wella canllawiau ynghylch pobl sydd ar goll ac adrodd yn ddienw.



# Ffurflen adborth

Cwblhewch ein ffurflen adborth i'n helpu i wella ein gwasanaethau a chefnogi cymuned y brifysgol yn well – gall ac fe fydd eich ymatebion yn aros yn gyfrinachol.